

Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU: Prif Ymateb yr Awdurdod i Ymgynghoriad Polisi Marchnadoedd y Dyfodol

Ymateb ar y cyd Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru ac Adran Amaethyddiaeth, Amgylchedd a Materion Gwledig Gogledd Iwerddon.



© Hawlfraint y Goron 2025

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch at y Tîm Polisi Gwybodaeth, Yr Archifau Cenedlaethol, Kew, Llundain TW9 4DU, neu e-bostiwch: psi@nationalarchives.gov.uk.

Pan fyddwn wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn: emissions.trading@energysecurity.gov.uk

Cynnwys

Crynodeb Gweithredol.....	4
Cefndir.....	4
Crynodeb o Benderfyniadau'r Awdurdod.....	5
Y Camau Nesaf	6
Crynodeb o'r Risgiau.....	7
Manylion Ymateb yr Awdurdod	9
Pris Cadw Arwerthiant.....	10
Penderfyniad Polisi.....	10
Sail resymegol.....	10
Barn Rhanddeiliaid	10
Cyngor y Pwyllgor Newid Hinsawdd.....	11
Gweithrediad	11
Mecanwaith Cyfyngu Costau (CCM)	11
Penderfyniad Polisi.....	11
Sail resymegol.....	12
Barn Rhanddeiliaid	12
Mecanwaith Addasu Cyflenwad a Sbardunir gan Faint.....	13
Penderfyniad Polisi.....	13
Sail resymegol.....	13
Barn Rhanddeiliaid	13
Crynodeb o'r Ymatebion i'r Ymgynghoriad	15
Crynodeb o Ymatebion Rhanddeiliaid.....	15
Risg 1: Newid yn y galw gydag effeithiau hirdymor	15
Crynodeb o Ymatebion Rhanddeiliaid.....	16
Risg 2: Gostyngiad sydyn, sylweddol a pharhaus mewn prisiau.....	17
Crynodeb o Ymatebion Rhanddeiliaid.....	18
Risg 3: Cynnydd sydyn, sylweddol a pharhaus mewn prisiau.....	19
Crynodeb o Ymatebion Rhanddeiliaid.....	20
Y Gronfa Wrth Gefn	21
Crynodeb o Ymatebion Rhanddeiliaid.....	22
Atodiad: Ymatebion SAM a sbardunir gan faint.....	23

Crynodeb Gweithredol

Cefndir

Mae Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU (UK ETS) yn cael ei lywodraethu gan Awdurdod UK ETS ('yr Awdurdod' o hyn ymlaen). Mae'r Awdurdod yn cynnwys Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru a'r Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig (DAERA) ar gyfer Gogledd Iwerddon. Fe'i lansiwyd ar 1 Ionawr 2021 yn dilyn ymadawiad y DU o System Masnachu Allyriadau'r UE (EU ETS).

Pan sefydlwyd UK ETS gyntaf, gweithredwyd polisïau marchnadoedd i gefnogi lansiad sefydlog marchnad ETS newydd a gweithrediad effeithiol y cynllun yn ei flynyddoedd cynnar. Ar hyn o bryd mae UK ETS yn cynnwys dau fecanwaith sefydlogi'r farchnad: sef Pris Cadw Arwerthiant (ARP) wedi'i osod ar £22 a Mekanwaith Cyfyngu Costau (CCM).

Ym mis Rhagfyr 2023, ymgynghorodd yr Awdurdod ar bolisi marchnadoedd presennol a nodi newidiadau arfaethedig i sicrhau bod y polisi yn parhau i fod yn addas i'r diben ac yn effeithiol wrth reoli'r risgiau sy'n wynebu cynllun sefydledig sy'n aeddfedu. Y bwriad yw cynnal amodau marchnad sefydlog ac effeithiol a fydd yn parhau i ysgogi datgarboneiddio yn y sectorau masnachu.

Cysylltu cynlluniau ETS y DU a'r UE

Yn dilyn cyhoeddi Ymgynghoriad Polisi Marchnadoedd y Dyfodol UK ETS ym mis Rhagfyr 2023, cyhoeddwyd yn Uwchgynhadledd 19 Mai 2025 rhwng y DU a'r UE fod y DU a'r UE wedi cytuno i weithio tuag at gysylltu UK ETS a System Masnachu Allyriadau'r UE (EU ETS) fel y nodir yn y Ddealltwriaeth Gyffredin¹.

Mae yna lawer o fanteision i gynllun cysylltiedig, gan gynnwys creu a chyrchu marchnad carbon fwy o faint, dyfnach a mwy hylifol. Ar y cyfan, byddai cysylltu UK ETS ac EU ETS yn golygu llwybr rhatach i sero net.

Mae gan gysylltu oblygiadau i'r dull o reoli risgiau a nodwyd yn Ymgynghoriad Polisi Marchnadoedd y Dyfodol. Bydd unrhyw gyswllt yn y dyfodol yn gofyn am ddull effeithiol a chydgyssylltiedig o sefydlogi marchnad ar draws y ddwy farchnad; fel y cyfryw, bydd angen pennu polisi marchnadoedd mewn cynllun cysylltiedig trwy drafodaethau rhwng y DU a'r UE.

Mae'r penderfyniadau yn y ddogfen hon yn nodi newidiadau i bolisi marchnadoedd ar gyfer UK ETS. Mae'r newidiadau yn adlewyrchu polisi y mae'r Awdurdod yn ystyried ei fod yn gymesur i'w wneud ar hyn o bryd i gefnogi marchnad annibynnol effeithiol tra bod trafodaethau i gysylltu UK ETS

¹ Uwchgynhadledd rhwng y DU a'r UE – [Dealltwriaeth Gyffredin](#), 19 Mai 2025.

ac EU ETS yn parhau. **Nid yw'r penderfyniadau yn cynrychioli safbwyntiau'r DU ar gyfer y trafodaethau, ac nid ydynt ychwaith yn atal unrhyw newidiadau y gallai fod angen eu gwneud os bydd y DU a'r UE yn cytuno i gysylltu eu cynlluniau.**

Ymatebodd 58 o randdeiliaid i'r ymgynghoriad². Diolch i'r holl randdeiliaid sydd wedi cymryd rhan yn yr adolygiad hwn. Mae'r ddogfen hon yn nodi'r penderfyniadau terfynol a wnaed gan yr Awdurdod a chrynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

Crynodeb o Benderfyniadau'r Awdurdod

Wrth wneud y penderfyniadau hyn, mae'r Awdurdod wedi dadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad, wedi casglu tystiolaeth a chynnal ei ddadansoddiad ei hun, ac wedi ystyried cyngor diweddaraf y Pwyllgor Newid Hinsawdd (CCC).

Mae'r Awdurdod hefyd wedi ystyried rhyngweithio â blaenoriaethau ehangach y llywodraeth, megis y cytundeb i weithio tuag at gysylltu UK ETS ac EU ETS, fel y nodir yn y blwch testun uchod.

Dim ond yng nghyd-destun cynllun annibynnol y bydd y newidiadau i bolisi marchnadoedd a amlinellir yn y ddogfen hon yn berthnasol. Bydd polisi marchnadoedd mewn cynllun cysylltiedig yn cael ei benderfynu trwy drafodaethau rhwng y DU a'r UE. Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i gynnal marchnad gadarn sy'n gweithredu'n ddifffwdan sy'n cefnogi datgarboneiddio cost-effeithiol. Byddwn yn parhau i fod yn wiliadwrs ac yn cadw llygad barcud ar ddatblygiadau'r farchnad i sicrhau bod polisi marchnadoedd yn parhau i fod yn addas i'r diben.

Mae penderfyniadau allweddol yn cynnwys:

- **Cadw'r Pris Cadw Arwerthiant (ARP) a'i ddiogelu rhag chwyddiant.** Mae'r Awdurdod wedi penderfynu cadw'r ARP a chynnal ei werth gwirioneddol – a thrwy hynny weithredu cynnydd yn seiliedig ar chwyddiant ers ei gyflwyno (h.y. o £22 i £28) yn 2026 a chynyddu'r gwerth bob blwyddyn yn ôl chwyddiant o 2027 ymlaen.
- **Cynnal dyluniad a gweithrediad presennol y Mekanwaith Cyfyngu Costau (CCM) a chadw disgrisiwn.** Bydd y CCM yn parhau i sbarduno os yw'r pris cyfartalog ar gyfer un lwfans ar y farchnad dyfodol eilaidd yn fwy na swm sy'n hafal i dair gwaith y pris cyfartalog yn y cyfnod dwy flynedd flaenorol am chwe mis yn olynol.
- **Diystyru gweithredu Mekanwaith Addasu Cyflenwad (SAM) a sbardunir gan faint ar gyfer UK ETS annibynnol.** Mae'r Awdurdod wedi dod i'r

² [Ymgynghoriad Polisi Marchnadoedd UK ETS yn y dyfodol, Rhagfyr 2023.](#)

casgliad bod cadw'r mecanweithiau presennol sy'n seiliedig ar brisiau (CCM ac ARP) yn ddigonol i liniaru rhag risgiau allweddol mewn cynllun annibynnol yn y DU.

O ystyried y penderfyniad i gadw mecanweithiau presennol sefydlogi'r farchnad, nid ydym yn gwneud newidiadau i faint na strwythur y gronfa wrth gefn ar hyn o bryd.

Y Camau Nesaf

Yn dilyn yr ymateb hwn, bydd yr Awdurdod yn bwrw ymlaen â gweithredu'r newidiadau i'r ARP. Bydd y cynnydd cychwynnol o £22 i £28 yn digwydd yn 2026, a bydd y cynnydd blyneddol mewn chwyddiant yn digwydd o 2027. Byddwn yn sicrhau bod y farchnad yn cael rhybudd ymlaen llaw cyn i'r cynnydd ddigwydd. Bydd y CCM yn parhau i weithredu yn unol â'r rheolau cyfredol³.

³ Gweithredu'r [Mecanwaith Cyfyngu Costau \(CCM\)](#).

Crynodeb o'r Risgiau

Mae'r adran hon yn nodi trosolwg o'r risgiau allweddol i weithredu'r farchnad.

Risgiau i Sefydlogrwydd y Farchnad

Yn yr ymgynghoriad, gofynnodd yr Awdurdod am farn ar y tair prif risg i weithrediad effeithiol marchnad UK ETS y dylid cynllunio polisi i fynd i'r afael â nhw. Mae crynodeb o ymatebion rhanddeiliaid wedi'i nodi ar dudalen 15.

Risg 1: Newid yn y galw gydag effeithiau hirdymor

Gallai'r risg hon gael ei hachosi gan newidiadau i lefel y gwarged yn y farchnad o ganlyniad i newidiadau annisgwyl yn y galw. Mae gweithrediad effeithiol marchnad UK ETS yn cael ei gefnogi gan rywfaint o warged yn y cynllun. Diffinnir gwarged fel maint y lwfansau sy'n bresennol yn y cynllun sy'n fwy na maint y lwfansau sy'n ofynnol ar gyfer cydymffurfio blynyddol. Mae swm y gwarged yn dibynnu ar y cyflenwad a'r galw dros amser. Bydd newid yn y galw mewn blwyddyn benodol yn effeithio ar faint y gwarged – bydd y gwarged yn tyfu os yw'r cyflenwad yn fwy na'r galw a bydd y gwarged yn crebachu os yw'r galw yn fwy na'r cyflenwad.

Gall gwarged annigonol neu ormodol gael effeithiau andwyol ar weithrediad y farchnad. Gall hyn gael ei achosi gan ddatblygiadau sy'n newid y galw mewn ffyrdd annisgwyl (h.y. datblygiadau nad ydynt wedi'u rhagweld / nad ydynt wedi llywio penderfyniadau strwythurol ar ddylunio'r cynllun).

Gall gwarged gormodol godi os yw'r galw am lwfansau dros amser yn is na'r cyflenwad lwfansau i'r farchnad. Gallai hyn ddigwydd oherwydd e.e., dirywiad macroeconomaidd sy'n lleihau allbwn a'r galw am lwfansau. Gallai gwarged gormodol ostwng prisiau lwfans dros amser, gan leihau'r cymhelliant i gyfranogwyr fuddsoddi mewn technolegau lleihau. Gall gwarged annigonol godi os yw'r galw am lwfansau dros amser yn fwy na'r cyflenwad lwfansau i'r farchnad. Gallai hyn ddigwydd oherwydd e.e., ffyniant macroeconomaidd sy'n cynyddu allbwn a'r galw am lwfansau. Gallai gwarged annigonol arwain at gostau uwch ac erydu gallu cyfranogwyr y farchnad i fuddsoddi mewn gostyngiadau allyriadau tra byddant yn agored i rwymedigaethau cydymffurfio drutach.

Risg 2: Gostyngiad sydyn, sylweddol a pharhaus mewn prisiau

Gallai'r risg hon gael ei hachosi gan sioc marchnad sy'n gostwng y galw, gan arwain at ostyngiad sydyn, parhaus mewn prisiau. Byddai'r math hwn o sioc yn lleihau'n sylweddol y gost gydymffurfio i weithredwyr a fyddai'n lleihau'r signal datgarboneiddio a osodwyd gan UK ETS a gallai arwain at ostyngiadau allyriadau yn cael eu gohirio tra bod prisiau'n parhau i fod yn isel.

Os oes potensial sylweddol i brisiau fod yn is yn y dyfodol, gallai'r achos buddsoddi ar gyfer prosiect datgarboneiddio penodol gael ei danseilio. Enghraifft o sbardun a

allai achosi'r math hwn o sioc yw prisiau ynni'n codi dros dro, gan leihau allbwn a galw am lwfansau'r DU.

Risg 3: Cynnydd sydyn, sylweddol a pharhaus mewn prisiau

Gallai'r risg hon gael ei hachosi gan sioc marchnad sy'n chwyddo'r galw gan arwain at gynnydd parhaus mewn prisiau, gan gynyddu cost allyriadau i weithredwyr yn sylweddol, gan effeithio'n andwyol ar eu cystadleurwydd a risg gan roi cost ormodol ar weithredwyr gyda'r budd ychwanegol lleiaf o ran datgarboneiddio. Un enghraifft o sbardun posibl ar gyfer y math hwn o sioc yw oedi i brosiect datgarboneiddio mawr, disgwyledig a fyddai wedi arwain at ostyngiadau sylweddol mewn allyriadau.

Byddai'r oedi hwn yn arwain at fwy o alw am lwfansau yn y tymor byr nag yr oedd y farchnad yn ei ddisgwyl.

Manylion Ymateb yr Awdurdod

Mae'r Awdurdod wedi ystyried ymatebion rhanddeiliaid a dadansoddiad mewnol yn ofalus ac wedi penderfynu gwneud y newidiadau polisi isod sy'n addas ar gyfer UK ETS annibynnol.

- **Cadw'r Pris Cadw Arwerthiant (ARP) a'i ddiogelu rhag chwyddiant.** Mae'r Awdurdod wedi penderfynu cadw'r ARP a chynnal ei werth gwirioneddol – a thrwy hynny weithredu cynnydd yn seiliedig ar chwyddiant ers ei gyflwyno (h.y. o £22 i £28) yn 2026 a chynyddu'r gwerth bob blwyddyn yn ôl chwyddiant o 2027 ymlaen.
- **Cynnal dyluniad a gweithrediad presennol y Mekanwaith Cyfyngu Costau (CCM) a chadw disgresiwn.** Bydd y CCM yn parhau i sbarduno os yw'r pris cyfartalog ar gyfer un lwfans ar y farchnad dyfodol eilaidd yn fwy na swm sy'n hafal i dair gwaith y pris cyfartalog yn y cyfnod dwy flynedd flaenorol am chwe mis yn olynol.
- **Diystyru gweithredu Mekanwaith Addasu Cyflenwad (SAM) a sbardunir gan faint ar gyfer UK ETS annibynnol.** Mae'r Awdurdod wedi dod i'r casgliad bod cadw'r mecanweithiau presennol sy'n seiliedig ar brisiau (CCM ac ARP) yn ddigonol i liniaru rhag risgiau allweddol mewn cynllun annibynnol yn y DU.

Gwnaethpwyd y penderfyniadau yng nghyd-destun y bwriad datganedig i weithio tuag at gysylltu UK ETS ag EU ETS. Ystyriwn fod y rhain yn welliannau cymesur ond gwerthfawr i gefnogi gweithrediad effeithiol cynllun annibynnol ac rydym wedi osgoi gweithredu newidiadau mwy neu fwy cymhleth i ganiatáu i drafodaethau ddigwydd.

Bydd polisi marchnadoedd y dyfodol mewn cynllun cysylltiedig yn cael ei bennu trwy drafodaethau rhwng y DU a'r UE. Nid yw cynigion yr Awdurdod yn cyfyngu ar gysylltu cynlluniau'r DU a'r UE yn y dyfodol, ac rydym o'r farn bod y dull hwn yn cymryd ymagwedd gymesur at newidiadau polisi drwy'r cyfnod trafod.

Daeth yr Awdurdod i'r casgliad bod yr ARP a'r CCM yn effeithiol ar gyfer lliniaru parhaus rhag newidiadau galw, a gostyngiadau a chynnydd sydyn, sylweddol a pharhaus mewn prisiau. Nodir isod y rhesymeg dros y penderfyniadau hyn.

Pris Cadw Arwerthiant

Penderfyniad Polisi

Mae'r Awdurdod wedi gwneud y penderfyniad i gadw'r ARP a'i gynyddu o £22 i £28, a fydd yn dod i rym yn 2026. Bydd yr ARP yn cynyddu'n flynyddol gyda chwyddiant o fis Ionawr 2027 yn seiliedig ar y Datchwyddydd Cynnyrch Domestig Gros. Bydd yr ARP yn parhau i fod yn ei le ar gyfer UK ETS annibynnol. Mae cyngor gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd yn cefnogi cynnydd treigl i'r ARP.

Sail resymegol

Yn flaenorol, mynegodd yr Awdurdod safbwynt bwriad i gadw'r ARP a gofynnodd am farn ynghylch a ddylid gwneud cynnydd unigol neu esblygol i'r gwerth. Wrth wneud y penderfyniad terfynol, fe wnaethom asesu'r ARP presennol ochr yn ochr â gwahanol opsiynau dylunio a nodwyd yn yr ymgynghoriad.

Mae ein dadansoddiad wedi dod i'r casgliad bod ARP yn parhau i fod yn bolisi effeithiol ar gyfer rheoli gostyngiadau prisiau sydyn, sylweddol a pharhaus ac yn darparu signal buddsoddi isafswm pris hirdymor ar gyfer datgarboneiddio.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod y bydd angen dull gwahanol o reoli'r farchnad i gynllun annibynnol ar unrhyw farchnad gysylltiedig bosibl yn y dyfodol. Ystyriwn felly ei bod yn gymesur cadw a diweddarau'r ARP, tra bod trafodaethau i gysylltu UK ETS ac EU ETS yn digwydd, yn hytrach na chyflwyno mecanweithiau newydd.

Cyflwynwyd yr ARP o £22 yn 2021 ac mae wedi aros yr un gwerth. Mae cynyddu'r ARP o £22 i £28 yn adlewyrchu gwerth chwyddiant ers 2021, a bydd cynnydd blynyddol treigl yn seiliedig ar y datchwyddydd cynnyrch domestig gros yn sicrhau bod lefel yr ARP yn parhau i adlewyrchu chwyddiant. Dewiswyd y datchwyddydd cynnyrch domestig gros, a ddarparwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol⁴, fel y mesur chwyddiant priodol gan nad yw lwfansau yn gynnyrch defnyddwyr, ac mae modelau eraill ar gyfer rhagamcanu allyriadau a gwerthoedd carbon wedi'i fasnachu yn defnyddio'r datchwyddydd cynnyrch domestig gros. I gael rhagor o wybodaeth, cyfeiriwch at yr asesiad effaith a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r ymateb hwn.

Barn Rhanddeiliaid

Mae'r Awdurdod wedi cydnabod cryfder y gefnogaeth i gadw'r ARP mewn UK ETS annibynnol, gydag 87% o'r ymatebwyr yn cytuno, ochr yn ochr â 66% a oedd am godi lefel yr ARP a 67% a oedd am iddo fod yn werth esblygol yn hytrach na statig.

Nododd ymatebwyr fod yr ARP yn darparu rhagweladwydd i'r farchnad trwy barhau i sefydlu isafswm pris cynnig, gan anfon signal buddsoddi tymor hir i'r farchnad. Prin

⁴ [Cynnyrch Domestig Gros – tablau data - y Swyddfa Ystadegau Gwladol](#)

oedd y gefnogaeth i gefnu ar yr ARP fel y mecanwaith terfyn isaf o ystyried symrlwydd y mecanwaith presennol a'r cynefindra â'r farchnad.

Cyngor y Pwyllgor Newid Hinsawdd

Wrth wneud y penderfyniadau hyn, rydym wedi ystyried cyngor diweddaraf y Pwyllgor Newid Hinsawdd⁵. Dywed y Pwyllgor y dylai Awdurdod UK ETS weithio tuag at sefydlogi'r farchnad mewn modd sy'n alinio cynlluniau'r DU a'r UE orau, er mwyn gwneud y mwyaf o fanteision cysylltu. Mae'r prif argymhelliad technegol yn nodi y dylid gosod yr ARP ar lefel sy'n ddigon agos at gost ddisgwyliedig datgarboneiddio.

Mae'r penderfyniadau a nodir yn y ddogfen hon yn ceisio adlewyrchu bwriad polisi argymhelliad y Pwyllgor o gefnogi effeithiolrwydd y cynllun; fodd bynnag, mae'r fethodoleg a ddefnyddiwyd i bennu'r ARP cynyddol yn anelu at gadw egwyddor sylfaenol y farchnad yn gosod y pris.

Gweithrediad

Bydd yr Awdurdod yn cynyddu'r ARP i £28 yn 2026 a bydd yn rhoi digon o rybudd i'r farchnad cyn i'r cynnydd ddod i rym. Mae hyn yn golygu y bydd arwerthiannau yn cael isafswm pris cynnig newydd ac ni dderbynnir cynigion o dan £28 o gwbl.

Bydd yr ARP wedyn yn cynyddu bob blwyddyn ar sail dreigl i adlewyrchu chwyddiant, gan ddefnyddio mesur y datchwyddydd cynnyrch domestig gros. Bob blwyddyn, bydd yr Awdurdod yn cyhoeddi'r lefel newydd o ARP ar gyfer y flwyddyn ganlynol, ochr yn ochr â chyhoeddi'r calendr arwerthiannau. Er enghraifft, bydd gwerth ARP ar gyfer 2027 yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r calendr arwerthiannau yn 2026⁶ ac yna daw i rym o 1 Ionawr 2027.

Mecanwaith Cyfyngu Costau (CCM)

Penderfyniad Polisi

Mae'r Awdurdod wedi penderfynu cadw dyluniad a gweithrediad presennol y CCM ar gyfer UK ETS annibynnol. Mae'r Awdurdod yn cydnabod cryfder y teimlad a fynegwyd drwy'r ymgynghoriad, gan gynnwys ar feysydd penodol lle gellir gwella'r CCM, megis adweithedd trothwy a chyflwyno awtomeiddio i'r broses o wneud penderfyniadau. Rydym am sicrhau'r farchnad bod yr Awdurdod yn cymryd y pryderon hyn o ddifrif ac y bydd yn parhau i fonitro'r farchnad yn agos. Mae'r Awdurdod yn parhau i fod yn barod i gymryd camau amserol a chymesur, o fewn rheolau'r cynllun, i gefnogi ei weithrediad effeithiol pe bai'r CCM yn cael ei sbarduno.

⁵ [Cyngor y Pwyllgor Newid Hinsawdd ar bolisi marchnadoedd UK ETS, Gorffennaf 2025.](#)

⁶ [Enghraifft o gyhoeddiad y Calendr Arwerthiannau - Calendr Arwerthiannau UK ETS 2025, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2024.](#)

Sail resymegol

Yn flaenorol, mynegodd yr Awdurdod safbwynt bwriad i gadw'r CCM a gofynnodd am farn ar nodweddion dylunio fel y trothwyon sbarduno a defnyddio disgresiwn. Wrth wneud y penderfyniad terfynol, fe wnaethom asesu'r CCM presennol ochr yn ochr â gwahanol opsiynau dylunio a nodwyd yn yr ymgynghoriad.

Rydym wedi dod i'r casgliad bod dyluniad y CCM yn ffafriol dros fathau eraill o opsiynau dylunio terfyn uchaf. Mae'r mecanwaith presennol yn adlewyrchu prisiau hanesyddol yn hytrach na gosod pris sefydlog, gan ganiatáu darganfod prisiau naturiol yn y farchnad eilaidd. Rydym o'r farn bod cadw disgresiwn ar ymyrraeth mewn cynllun annibynnol yn caniatáu ymyrraeth wedi'i theilwra yn ôl y cyd-destun ar y pryd.

Mae'r DU a'r UE wedi cytuno i weithio tuag at gysylltu UK ETS ac EU ETS. Os cyrhaeddir cytundeb cysylltu, bydd angen cydlynu polisi marchnadoedd y dyfodol yn ofalus rhwng y ddwy ochr. Felly, mae'r Awdurdod wedi penderfynu na fyddai'n gymesur gweithredu diwygiadau technegol (h.y. adweithedd trothwy) i'r CCM ar hyn o bryd, tra bod trafodaethau yn parhau. Byddwn yn parhau i gadw llygad barcud ar ddatblygiadau'r farchnad i sicrhau bod y polisi yn parhau i fod yn addas i'r diben.

Barn Rhanddeiliaid

Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod 74% o'r ymatebwyr yn dweud na ddylid cadw'r CCM heb addasiadau sylweddol, gyda 67% o'r ymatebwyr yn hyrwyddo gostyngiadau trothwy i wneud y CCM yn fwy adweithiol, a 62% yn cefnogi cyflwyno awtomeiddio i'r broses o wneud penderfyniadau. Mae'r Awdurdod yn cydnabod y materion hyn ond mae'n parhau i hyderu bod y CCM presennol wedi'i gyfarparu i liniaru rhag cynnydd parhaus mewn prisiau yn ystod y cyfnod trafod parhaus.

Mecanwaith Addasu Cyflenwad a Sbardunir gan Faint

Penderfyniad Polisi

Asesodd yr Awdurdod rinweddau Mekanweithiau Addasu Cyflenwad (SAM) a sbardunir gan faint a rhai a sbardunir gan bris fel mecanweithiau i fynd i'r afael â newidiadau galw gydag effeithiau hirdymor. Ar ôl proses asesu drylwyr, daeth yr Awdurdod i'r casgliad bod cadw'r mecanweithiau presennol sy'n seiliedig ar brisiau (ARP a CCM) yn briodol ac yn gymesur i liniaru risgiau allweddol y farchnad mewn cynllun annibynnol yn y DU.

Sail resymegol

Yn flaenorol, mynegodd yr Awdurdod safbwynt bwriad i weithredu Mekanwaith Addasu Cyflenwad (SAM) a sbardunir gan faint a gofynnodd am farn ar nodweddion dylunio. Ystyriodd yr Awdurdod ymatebion llenyddiaeth academiaidd ac ymgynghori gan randdeiliaid a daeth i'r casgliad nad cyflwyno SAM a sbardunir gan faint fyddai'r ffordd fwyaf effeithiol o fynd i'r afael â rhai mathau o newidiadau galw. Mae llenyddiaeth academiaidd yn tynnu sylw at gyfyngiadau gyda'r mecanweithiau hyn o fynd i'r afael â siociau disgwylidig, a welwyd ymlaen llaw, ar ôl gosod y cap, h.y. yn disgwyl cau safle. I gael rhagor o wybodaeth, cyfeiriwch at yr asesiad effaith a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r ymateb hwn.

Yn ogystal, yn y cyd-destun bod y DU a'r UE wedi cytuno i weithio tuag at gysylltu UK ETS ac EU ETS, mae'r Awdurdod wedi ceisio osgoi gwneud newidiadau mawr a chymhleth i UK ETS yn y tymor byr. Mae'r Awdurdod yn ystyried bod cadw'r mecanweithiau presennol yn cynnig sefydlogrwydd yn ystod trafodaethau ac yn sicrhau bod UK ETS yn parhau i fod yn hyblyg i addasu i ganlyniadau cysylltu posibl.

Mae'r Awdurdod yn hyderu o hyd y bydd y ddau fecanwaith presennol sy'n seiliedig ar brisiau, sef ARP a CCM, yn parhau i fod yn effeithiol wrth liniaru risg mewn UK ETS annibynnol.

Barn Rhanddeiliaid

Mae'r Awdurdod yn cydnabod cefnogaeth gref i gyflwyno SAM a sbardunir gan faint, gan fod 71% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r safbwynt bwriad. Un thema allweddol yn yr ymatebion oedd y gallai mecanwaith a sbardunir gan faint gefnogi posibilrwydd cysylltu UK ETS ag EU ETS. Roedd llai o gefnogaeth i SAM a sbardunir gan bris oherwydd effeithiau negyddol posibl ar gysylltu a phryderon bod hyn yn ymyrryd gormod.

Nid yw'r safbwyntiau hyn wedi mynd heb eu clywed, ac rydym am sicrhau'r farchnad bod yr Awdurdod wedi cynnal proses asesu helaeth o SAM a sbardunir gan faint cyn cadarnhau'r penderfyniad hwn. Gwnaethpwyd y penderfyniad hwn hefyd yng nghydestun y bwriad a ddatganwyd i weithio tuag at gysylltu UK ETS ag EU ETS, a fydd yn gofyn am ddull cydgysylltiedig o sefydlogi'r farchnad ar draws y ddwy farchnad. Rydym wedi osgoi gweithredu newidiadau mwy neu fwy cymhleth i ganiatáu i drafodaethau ddigwydd.

Crynodeb o'r Ymatebion i'r Ymgynghoriad

Cwestiynau

1. A ydych chi'n cytuno â'r risgiau allweddol a nodwyd gennym? (Ydw/Nac Ydw). Rhwch unrhyw dystiolaeth ategol yn eich ymateb.
2. A oes unrhyw risgiau amgen i'r rhai a restrir uchod y dylai'r Awdurdod eu hystyried? (Oes/Nac Oes). Rhwch unrhyw dystiolaeth ategol yn eich ymateb.

Crynodeb o Ymatebion Rhanddeiliaid

Ymatebodd 38 o randdeiliaid i Gwestiwn 1 ar adnabod risg. Roedd **31/38 (82%)** o ymatebwyr yn cytuno â'r risgiau a nodwyd, tra bod **7/38 (18%)** yn anghytuno. Awgrymodd llawer o ymatebwyr y gellid lliniaru'r risgiau trwy gysylltu neu ehangu cwmipas, gan wneud UK ETS yn farchnad fwy a mwy hylifol sy'n llai agored i siociau prisiau a galw. Yn ogystal, roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod y mecanweithiau presennol sy'n weithredol yn UK ETS yn ddigonol i liniaru'r risgiau a restrwyd.

Ymatebodd 38 o randdeiliaid i Gwestiwn 2, lle darparodd **25/38 (66%)** o ymatebwyr risgiau amgen. Nododd nifer o'r ymatebwyr fod dadleoli carbon yn risg allweddol gan fod busnesau'r DU dan anfantais o'u cymharu â chystadleuwyr rhyngwladol, nad ydynt yn wynebu polisïau datgarboneiddio tebyg. Ar ben hynny, dywedodd ymatebwyr fod y gyfradd ddatgarboneiddio a lleihau argaeledd lwfansau yn risg allweddol gan nad yw rhai diwydiannau/cwmnïau yn gallu datgarboneiddio yn ddigon cyflym oherwydd materion fforddiadwyedd a'r gallu i dyfu yn unol â'r anghenion. Yn olaf, nododd rhai ymatebwyr fod gweithredu polisïau rhy gymhleth yn risg a fydd yn lleihau gweithrediad a dealltwriaeth y farchnad.

Risg 1: Newid yn y galw gydag effeithiau hirdymor

Crynodeb o'r Cynnig

Yn yr ymgynghoriad, gofynnodd yr Awdurdod am farn ar safbwynt bwriad i gyflwyno Mecanwaith Addasu Cyflenwad (SAM) a sbardunir gan faint i fynd i'r afael â Risg 1 (newid galw gydag effeithiau hirdymor). Gofynnodd yr Awdurdod am farn rhanddeiliaid ar fanteision cyflwyno SAM yn UK ETS a dewisiadau rhwng SAM a sbardunir gan bris neu SAM a sbardunir gan faint.

Mae crynodeb o'r ymatebion sy'n cwmpasu agweddau technegol gweithrediad a dyluniad SAM a sbardunir gan faint yn yr Atodiad.

Cwestiynau

3. A ydych chi'n credu y byddai UK ETS yn elwa ar gyflwyno mecanwaith addasu cyflenwad i fynd i'r afael â newid galw gyda risg effeithiau hirdymor? (Ydw/Nac Ydw). Esboniwch y rhesymau dros eich ymateb.
4. Os felly, a oes gennych ffafriaeth ar gyfer a) mecanwaith addasu cyflenwad a sbardunir gan faint neu b) mecanwaith addasu cyflenwad a sbardunir gan bris, fel ffordd orau o fynd i'r afael â'r risg hon? Rhwch eich rhesymau dros eich dewis a'ch ymateb.
5. A ydych chi'n cytuno â safbwynt bwriad yr Awdurdod ar gyflwyno SAM a sbardunir gan faint? (Ydw/Nac Ydw). Rhwch eich rhesymau dros eich ymateb.

Crynodeb o Ymatebion Rhanddeiliaid

Ymatebodd 44 o randdeiliaid i Gwestiwn 3. Roedd **34/44 (77%)** o ymatebwyr yn cefnogi cyflwyno SAM yn UK ETS. Awgrymodd ymatebwyr y gallai cyflwyno SAM ddatrys achosion o warged gormodol neu dangyflenwad lwfansau a lliniaru rhag amrywiadau sylweddol mewn prisiau carbon. Yn ogystal, nododd rhai ymatebwyr y gallai SAM weithio'n dda ochr yn ochr â'r CCM a'r ARP, gan fynegi'r farn y gallai gefnogi trafodaethau cysylltu â'r UE, gan fod SAM ar waith gan EU ETS. Nid oedd **10/44 (23%)** o'r rhanddeiliaid yn credu y byddai UK ETS yn elwa ar SAM, gan godi pryderon y gallai cyflwyno SAM ychwanegu cymhlethdod diangen, gan ymyrryd gormod, a bod y mecanweithiau presennol yn ddigonol i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon.

Ymatebodd 46 o randdeiliaid i Gwestiwn 4, lle'r oedd yn well gan **33/46 (72%)** o'r ymatebwyr weithredu SAM (SAM) a sbardunir gan faint. Roedd y rhesymeg yn cynnwys ei fod yn ymyrryd llai na fersiwn sy'n seiliedig ar bris, yn caniatáu darganfod prisiau naturiol ac nid yw'n effeithio'n negyddol ar bosibilrwydd cysylltu ag EU ETS gan fod gan yr UE fecanwaith tebyg ar waith. Roedd yn well gan **6/46 (13%)** o'r ymatebwyr weithredu SAM a sbardunir gan bris gan ei fod yn llai cymhleth na SAM a sbardunir gan faint ac yn mynd i'r afael â phrif bryder gweithredwyr, sef y pris carbon. Nid oedd **7/46 (15%)** o'r ymatebwyr am i'r naill SAM na'r llall gael ei weithredu gan fod y CCM a'r ARP yn ddigonol i liniaru risgiau. Ymatebodd 42 o randdeiliaid i Gwestiwn 5. Roedd **30/42 (71%)** o ymatebwyr yn cytuno â safbwynt bwriad yr Awdurdod ac roedd **12/42 (29%)** yn anghytuno oherwydd y rhesymau uchod.

Risg 2: Gostyngiad sydyn, sylweddol a pharhaus mewn prisiau Crynodeb o'r Cynnig

Yn yr ymgynghoriad, nododd yr Awdurdod safbwynt bwriad i gadw'r Pris Cadw Arwerthiant mewn ymateb i Risg 2 (gostyngiad sydyn, sylweddol a pharhaus mewn prisiau).

Gosododd yr Awdurdod asesiad o wahanol opsiynau polisi y gellid eu gweithredu i ymateb i'r risg a gofynnodd am farn rhanddeiliaid ar y cynnig i gadw'r ARP a newidiadau dylunio posibl, megis addasu'r lefel sbardun a'r dull ymyrryd.

Cwestiynau

21. A ydych yn cytuno ag asesiad yr Awdurdod o bob un o'r opsiynau a ystyriwyd? (Ydw/Nac Ydw). Rhowch unrhyw dystiolaeth i gefnogi eich ateb.
22. A oes unrhyw opsiynau amgen i'r rhai a restrir uchod y gellid eu gweithredu gan yr Awdurdod i fynd i'r afael â risg gostyngiad sydyn, parhaus a sylweddol mewn prisiau ym marchnad UK ETS? Os felly, disgrifiwch sut mae'r mecanwaith yn gweithio.
23. A ydych chi'n cytuno â safbwynt bwriad yr Awdurdod i gadw'r ARP? (Ydw/Nac Ydw). Rhowch unrhyw dystiolaeth i gefnogi eich ateb.
24. A ydych chi'n meddwl y dylid gweithredu opsiwn polisi amgen, fel unrhyw un o'r opsiynau a drafodwyd yn flaenorol yn y bennod hon, ar y cyd â'r ARP? (Ydw/Nac Ydw). Os felly, ymhelaethwch os gwelwch yn dda.
25. A ydych chi'n meddwl y dylid newid y lefel sbarduno ARP? (Ydw/Nac Ydw). Ar ba lefel ydych chi'n meddwl y dylid gosod yr ARP? Rhowch resymeg dros eich ateb.
26. A ydych chi'n meddwl y dylai'r lefel sbarduno ARP aros yn statig neu a ddylai esblygu dros amser? Os ydych chi'n meddwl y dylai esblygu, sut ydych chi'n meddwl y dylai'r Awdurdod ddylunio'r esblygiad hwn? Rhowch resymeg dros eich ateb.
27. A ydych chi'n meddwl y dylai'r Awdurdod newid y ffordd y mae sbardun ARP yn effeithio ar gyflenwad arwerthiant? Os felly, esboniwch sut rydych chi'n meddwl y dylid newid hyn.
28. A oes unrhyw ffyrdd eraill y gallai'r Awdurdod newid ARP i'w wneud yn fwy effeithiol? Os felly, esboniwch y newidiadau hyn.

Crynodeb o Ymatebion Rhanddeiliaid

Ymatebodd 22 o randdeiliaid i Gwestiynau 21 a 22. Roedd **18/22 (82%)** o'r ymatebwyr yn cytuno ag asesiad yr Awdurdod, gan nodi bod Terfyn Isaf Pris Absoliwt yn ymyrryd gormod, tra nad yw'r Gronfa Cyfyngu Allyriadau yn briodol gan ei bod yn tynnu lwfansau yn barhaol o'r farchnad. Dim ond **4/22 (18%)** a oedd yn anghytuno â'r asesiad yn bennaf oherwydd eu barn nad yw'r ARP yn ofynnol mwyach, gan fod un ymatebydd yn awgrymu bod SAM a sbardunir gan bris yn darparu mwy o sefydlogrwydd i'r farchnad nag ARP.

Ymatebodd 46 o randdeiliaid i Gwestiwn 23. Roedd **40/46 (87%)** o'r ymatebwyr yn cefnogi'r safbwynt bwriad i gadw'r ARP am amrywiaeth o resymau, a oedd yn cynnwys: darparu sefydlogrwydd a rhagweladwyedd i'r farchnad, darparu signal hirdymor i'r farchnad barhau i ddatgarboneiddio, a chefnogi pris carbon sefydlog trwy osod isafswm pris. Ymatebodd 29 o randdeiliaid i Gwestiwn 24. Nid oedd **25/29 (86%)** o ymatebwyr am weithredu opsiynau polisi amgen ochr yn ochr â'r ARP gan ei fod yn ychwanegu gormod o gymhlethdod ac roeddent am gadw'r ARP fel un mecanwaith i ddelio â phrisiau isel.

Ymatebodd 32 o randdeiliaid i Gwestiwn 25 ynglŷn â'r lefel sbarduno ARP. Roedd **21/32 (66%)** o ymatebwyr yn hyrwyddo cynyddu lefel sbarduno'r ARP, gan ddweud y dylai gynyddu dros amser i ysgogi gweithredwyr i ddatgarboneiddio. Hefyd, dywedodd nifer o'r ymatebwyr y dylai'r sbardun ARP gynyddu'n wrthdro ochr yn ochr â'r taflwybr cap hirdymor, gostyngol, a gall codi'r ARP ddod â'r prisiau'n agosach at EU ETS a gallai helpu unrhyw drafodaethau cysylltu. Nid oedd **11/32 (34%)** o ymatebwyr am gynyddu ARP oherwydd pryderon ynghylch mwy o ymyrraeth yn y farchnad.

Ymatebodd 33 o randdeiliaid i Gwestiwn 26 ar y math o sbardun ARP. Roedd **22/33 (67%)** o ymatebwyr yn argymhell i'r ARP newid o sbardun statig i sbardun esblygol. O fewn y grŵp hwn, roedd y rhesymu'n cynnwys: dylai'r sbardun addasu tuag i fyny i adlewyrchu cynnydd mewn pris carbon, mae'n adlewyrchu costau cynyddol datgarboneiddio yn well ac yn anfon signal hirdymor y bydd allyriadau yn dod yn ddrutach, ac mae llawer o gynlluniau rhyngwladol wedi llwyddo i weithredu sbardun esblygol. Dywedodd **11/33 (33%)** o ymatebwyr y dylai'r ARP aros yn statig, a hynny'n bennaf am ei fod yn darparu rhagweladwyedd i'r farchnad a'i fod yn llai cymhleth na sbardun sy'n esblygu.

Ymatebodd 23 o randdeiliaid i Gwestiwn 27, a darparodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr awgrymiadau i newid cyflenwad arwerthiant yn dilyn sbarduno. Cynigiodd **12/23 (52%)** o'r ymatebwyr newidiadau arfaethedig, gan gynnwys gallai treiglo lwfansau i arwerthiannau yn y dyfodol gadw prisiau'n is am gyfnod hirach o gymharu â'u tynnu allan o gylchrediad yn barhaol. Hefyd, nododd nifer o'r ymatebwyr y dylid ychwanegu unrhyw lwfansau nas defnyddiwyd at y gronfa wrth gefn neu eu canslo ar unwaith ac nid eu hailddyrranu i arwerthiannau yn y dyfodol. Ymatebodd 24 o randdeiliaid i

Gwestiwn 28, lle nad oedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn darparu unrhyw awgrymiadau i newid yr ARP. Argymhellodd **9/24 (38%)** o'r ymatebwyr newidiadau, gan gynnwys dileu'r ARP pan fydd SAM wedi'i sefydlu a chysylltu'r pris â'r farchnad yn hytrach na chadw nifer mympwyol.

Risg 3: Cynnydd sydyn, sylweddol a pharhaus mewn prisiau

Crynodeb o'r Cynnig

Yn yr ymgynghoriad, nododd yr Awdurdod safbwynt bwriad i gadw'r CCM mewn ymateb i Risg 3 (cynnydd sydyn, sylweddol a pharhaus mewn prisiau).

Mae'r Awdurdod wedi gosod asesiad o wahanol opsiynau polisi y gellid eu gweithredu i liniaru'r risg. Ceisiodd yr Awdurdod hefyd farn am elfennau dylunio'r CCM, gan gynnwys adweithedd y trothwyon sbarduno a'r fethodoleg lefel sbarduno (sbardun pris hanesyddol yn erbyn absoliwt). Mynegodd yr Awdurdod safbwynt bwriad i gadw'r defnydd o ddisgresiwn ynghylch a ddylid gweithredu ynghylch y sbardun ond roedd am archwilio a ddylid cyflwyno awtomeiddio, a'r ffordd fwyaf effeithiol o wneud hynny.

Cwestiynau

29. A ydych yn cytuno ag asesiad yr Awdurdod o bob un o'r opsiynau a ystyriwyd? (Ydw/Nac Ydw). Rhewch unrhyw dystiolaeth i gefnogi eich ateb.
30. A oes unrhyw opsiynau amgen i'r rhai a restrir uchod y gellid eu gweithredu gan yr Awdurdod i fynd i'r afael â risg cynnydd sydyn, parhaus a sylweddol mewn prisiau? Os felly, disgrifiwch sut mae'r mecanwaith yn gweithio.
31. A ydych chi'n credu y dylid cadw'r CCM heb unrhyw addasiadau? (Ydw/Nac Ydw). Rhewch unrhyw dystiolaeth ategol yn eich ymateb.
32. A ydych chi'n credu y dylid cadw'r trothwyon CCM presennol? (Ydw/Nac Ydw). Rhewch unrhyw dystiolaeth ategol os gwelwch yn dda.
33. Os na, a ddylid gwneud y trothwyon CCM yn fwy adweithiol trwy newid y lluosydd, y cyfnod sbarduno a/neu'r cyfnod cyfeirio? Rhewch unrhyw dystiolaeth ategol os gwelwch yn dda.
34. A ydych chi'n credu y dylai'r fethodoleg sbarduno CCM fod yn seiliedig ar gymariaethau hanesyddol neu bris sefydlog? Rhewch unrhyw dystiolaeth ategol os gwelwch yn dda.
35. A oes dulliau amgen y dylem eu hystyried wrth osod y pris sbarduno CCM? Rhewch unrhyw dystiolaeth ategol os gwelwch yn dda.

36. A ydych chi'n credu y dylai'r CCM gadw disgresiwn yn ei brosesau gwneud penderfyniadau? (Ydw/Nac Ydw). Rhowch unrhyw dystiolaeth ategol os gwelwch yn dda.
37. Os na, ydych chi'n credu y dylai'r CCM gael ymateb cwbl awtomataidd neu rannol awtomataidd ar ôl sbarduno? Os felly, disgrifiwch sut y gallai hyn weithredu.
38. A oes unrhyw newidiadau dylunio eraill nad ydynt wedi'u rhestru uchod a fyddai'n gwella effeithiolrwydd y CCM?

Crynodeb o Ymatebion Rhanddeiliaid

Ymatebodd 28 o randdeiliaid i Gwestiwn 29, lle cytunodd **26/28 (93%)** o ymatebwyr â'r asesiad opsiynau. Ymatebodd 17 o randdeiliaid i Gwestiwn 30, a phrin oedd yr ymatebion ynghylch opsiynau amgen i'r CCM, ond nododd rhai ymatebwyr y dylid cynnwys agweddau ar fecanweithiau rhyngwladol, megis mwy o awtomeiddio a gwell tryloywder, yn y CCM.

Ymatebodd 42 o randdeiliaid i Gwestiwn 31 ar gadw'r CCM. Dywedodd **31/42 (74%)** o'r ymatebwyr na ddylid cadw'r CCM heb addasiadau, ac roedd y farn hon yn canolbwyntio ar dair thema allweddol. Yn gyntaf, awgrymodd ymatebwyr newidiadau i'r trothwy sbarduno CCM (gan gynnwys y lluosydd a'r cyfnod sbarduno), er mwyn ei wneud yn fwy adweithiol. Galwodd nifer o ymatebwyr am ddileu disgresiwn o'r broses CCM a chael ymatebion awtomatig, sy'n seiliedig ar reolau, yn hytrach. Yn olaf, nododd ymatebwyr y gall awtomeiddio ddarparu mwy o dryloywder a rhagweladwyedd. Nid oedd **11/42 (26%)** o ymatebwyr yn cefnogi addasiadau CCM, gan y gallai mecanwaith diwygiedig ymyrryd mwy, a dylid ei adolygu dim ond os gweithredir SAM gan y gall hynny reoli prinder lwfansau.

Ymatebodd 33 o randdeiliaid i Gwestiwn 32, lle dywedodd **22/33 (67%)** o ymatebwyr y dylid diwygio'r trothwyon CCM. Nododd nifer o ymatebwyr nad yw'r CCM yn amddiffyn cyfranogwyr yn ddigonol rhag prisiau cynyddol gan fod yn rhaid i'r pris carbon gynyddu'n sylweddol i actifadu'r CCM. Yn ogystal, roedd pryderon ynghylch pa mor gyflym y gall y mecanwaith ymateb i siociau tymor byr gan fod angen cynnal prisiau am 6 mis yn olynol. Ar gyfer Cwestiwn 33, o'r 22 ymatebydd a ddatganodd yn flaenorol y dylid diwygio'r trothwyon CCM (Cwestiwn 32), roedd yn well gan 16 weithredu newidiadau i'r cyfnod sbarduno (6 mis yn olynol), 15 i'r lluosydd (3 x cyfartaledd y ddwy flynedd flaenorol). Roedd 6 ymatebydd hefyd yn cefnogi newid i'r cyfnod cyfeirio 2 flynedd.

Ymatebodd 27 o randdeiliaid i Gwestiwn 34, lle dywedodd **22/27 (81%)** o ymatebwyr y dylai'r sbardun CCM fod yn seiliedig ar gymariaethau hanesyddol, gan fod sbardun sefydlog yn ymyrryd llawer mwy ac yn gosod cap ar brisiau yn hytrach na chaniatáu darganfod prisiau naturiol. Roedd **5/27 (19%)** o ymatebwyr yn hyrwyddo sbardun

sefydlog gan awgrymu y bydd pris sefydlog yn darparu mwy o sicrwydd a rhagweladwyedd i'r farchnad. Ymatebodd 18 o randdeiliaid i Gwestiwn 35, ac roedd awgrymiadau cyfyngedig ar fethodoleg sbarduno CCM amgen. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn canolbwyntio ar gysylltu'r pris sbarduno â phrisiau arwerthiant diweddar gan ei fod yn fwy cynrychioliadol o amodau'r farchnad, neu gysylltu'r lluosydd â'r pris carbon, lle mae'r lluosydd yn lleihau pan fydd y pris yn cynyddu.

Ymatebodd 39 o randdeiliaid i Gwestiwn 36, lle roedd **15/39 (38%)** o ymatebwyr yn dymuno cadw disgresiwn gan fod risg ymyrraeth yn y farchnad yn cael ei lleihau ac yn galluogi darganfod prisiau naturiol. Hefyd, mae disgresiwn yn rhoi'r hyblygrwydd i'r Awdurdod o ran sut i ymateb i wahanol senarios cynnydd prisiau. Fel arall, nid oedd **24/39 (62%)** o ymatebwyr am gadw disgresiwn, a nodwyd dau achos blaenorol o ddiffyg gweithredu gan yr Awdurdod, nad oedd yn rhoi hyder i'r farchnad y bydd yr Awdurdod yn ymyrryd pan fydd prisiau'n cynyddu. Nododd yr ymatebwyr hefyd fod y diffyg tryloywder ynghylch sut a pham mae penderfyniadau'n cael eu gwneud wedi arwain at ddiffyg sicrwydd i gyfranogwyr.

Ymatebodd 31 o randdeiliaid i Gwestiwn 37 ar weithredu awtomeiddio. Roedd nifer o ymatebwyr yn cefnogi awtomeiddio gan y bydd yn darparu lefelau uchel o dryloywder a rhagweladwyedd. Fel arall, awgrymodd rhai ymatebwyr y gellid ymgorffori disgresiwn ochr yn ochr ag awtomeiddio. Er enghraifft, rhaid i'r Awdurdod chwistrellu lwfansau yn dilyn sbardun, ond mae'r nifer yn parhau i fod yn ôl disgresiwn yr Awdurdod. Yn ogystal, roedd awgrymiadau awtomeiddio eraill yn cynnwys mwy o ffocws ar amseru, lle dylid lleihau a safoni amser i wneud penderfyniad.

Ymatebodd 16 o randdeiliaid i Gwestiwn 38 ar newidiadau dyluniad CCM eraill, gyda **13/16 (81%)** o ymatebwyr yn darparu awgrymiadau. Dywedodd nifer o'r ymatebwyr fod yn rhaid i'r amser sydd ei angen i wneud penderfyniad leihau a bod rhaid sicrhau bod hyn yn cael ei safoni. Ar ben hynny, galwodd llawer o ymatebwyr ar yr Awdurdod i wella tryloywder trwy amlinellu'r asesiad a gynhaliwyd a'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd i wneud penderfyniadau.

Y Gronfa Wrth Gefn

Crynodeb o'r Cynnig

Mae gan yr Awdurdod nifer o lwfansau wedi'u rhoi o'r neilltu mewn cronfa wrth gefn hyblyg. Mae'r achosion lle gellir tynnu ar lwfansau o'r gronfa hyblyg hon yn cynnwys actifadu mecanweithiau sefydlogi'r farchnad, fel y CCM, neu i liniaru cymhwysio Ffactor Cywiro Traws-Sector (CSCF) i gefnogi lefelau dyraniad am ddim. Yn yr ymgynghoriad, gofynnodd yr Awdurdod am farn am faint a strwythur y gronfa wrth gefn.

39. Oes gennych unrhyw farn am y dull o gadw lwfansau wrth gefn yn UK ETS neu unrhyw beth yr hoffech i'r Awdurdod ei ystyried wrth wneud penderfyniadau ar ei faint a'i strwythur?

Crynodeb o Ymatebion Rhanddeiliaid

Ymatebodd 27 o randdeiliaid i Gwestiwn 39, lle cafwyd barn **12/27 (44%)** o ymatebwyr. Awgrymodd rhai ymatebwyr, os yw niferoedd mawr o lwfansau heb eu defnyddio o fewn y gronfa wrth gefn ar ôl cyfnod penodol, na ddylid caniatáu iddynt ail-ymuno â'r farchnad gan fod gwarged o lwfansau yn ansefydlogi'r pris carbon. Roedd amrywiaeth barn mewn perthynas â maint y gronfa wrth gefn. Awgrymodd ymatebwyr lluosog y dylai'r gronfa fod yn gronfa gyfyngedig sy'n cadw'r cap pan ryddheir lwfansau, tra bod ymatebwyr eraill yn nodi na ddylid caniatáu i'r gronfa dyfu yn anghymesur â maint y farchnad, ac y dylai ostwng yn gymesur ochr yn ochr â'r cap. Awgrymodd nifer o ymatebwyr y dylid defnyddio'r gronfa wrth gefn dim ond i liniaru cymhwyso Ffactor Cywiro Traws-Sector (CSCF) i gefnogi dyraniad am ddim.

Atodiad: Ymatebion SAM a sbardunir gan faint

Cwestiynau

6. A ydych chi'n cytuno â'r dull arfaethedig o gyfrifo TNAC UK ETS? (Ydw/Nac Ydw). Rhowch resymau dros eich ymateb.
7. Os ydych chi'n anghytuno â'r dull arfaethedig, awgrymwch ddull arall a'ch rhesymeg dros hwn?
8. Beth yw eich barn chi ar ba lefel o warged sy'n ffurfio a) y lefel orau o warged yn y cynllun, a fyddai'n caniatáu i'r farchnad weithredu'n effeithiol a b) sut y gellid asesu hyn gan gynnwys o ran methodoleg? Rhowch eich resymau a'r dystiolaeth sydd gennych i'ch ymateb.
9. A oes gennych farn ar ba lefel a) y dylai'r trothwy sbarduno maint uchaf a b) y trothwy sbarduno maint isaf fod mewn SAM UK ETS? (Oes / Nac Oes). Rhowch eich resymau ac unrhyw dystiolaeth i gefnogi eich ymateb.
10. Pa mor adweithiol ddylai'r trothwyon uchaf ac isaf fod, er enghraifft a ddylai'r ddau drothwy gael graddfa lithro o addasiad cyflenwad? Rhowch eich resymau ac unrhyw dystiolaeth i gefnogi eich ymateb.
11. A yw'r Awdurdod wedi nodi pob math o sbardunau y dylid eu hystyried; neu a oes unrhyw fathau eraill o drothwyon sbardun y dylid eu hystyried? Rhowch eich resymau dros eich ymateb.
12. A ydych chi'n cytuno y byddai trothwyon sbarduno cymharol yn fwy priodol na throthwyon statig absoliwt? (Ydw/Nac Ydw). Rhowch eich resymau dros eich ymateb.
13. Os ydych chi'n cytuno, beth yw eich dewis – gwerthoedd trothwy sbarduno cymharol a) fel cyfran o gap blynyddol UK ETS neu b) yn berthynol i nifer arwerthiannau blynyddol?
14. Yn eich barn chi, beth ddylai'r lefel briodol o addasiad nifer arwerthiannau fod? Rhowch eich resymau ac unrhyw dystiolaeth dros eich ymateb.
15. A oes gennych ffafriaeth i'r addasiad hwn fod yn ganran o nifer arwerthiannau blynyddol, neu swm sefydlog arall, cyfuniad o'r ddau neu unrhyw fetrig arall? Rhowch eich resymau dros eich ymateb.
16. A ydych chi'n cytuno â'r amseriad cyhoeddi TNAC arfaethedig ar ôl cydymffurfio yn y Gwanwyn? (Ydw/Nac Ydw). Os na, esboniwch eich resymau.

17. Beth yw eich barn chi ar amseroedd addasu cyflenwad arwerthiant os yw'r SAM yn cael ei actifadu? Rhowch fanylion yr amseroedd sy'n cael eu ffafrio gennych a'r rhesymeg dros hyn.
18. Os oes angen addasu nifer arwerthiannau oherwydd actifadu SAM, a ydych yn cytuno y dylai'r Awdurdod ymdrechu i gadw dosbarthiad nifer arwerthiannau gweddol gyfartal yn y cyfnod yr effeithir arno gan yr addasiad hwn? (Ydw/Nac Ydw). Rhowch eich rhesymau dros eich ymateb.
19. Yn eich barn chi, pryd, o ran blwyddyn y cynllun, y dylid gweithredu unrhyw SAM a sbardunir gan faint i UK ETS, sy'n golygu y byddai'r SAM yn dechrau gweithredu'r flwyddyn ganlynol ar ôl y cyfnod cydymffurfio? Esboniwch eich rhesymau dros eich ymateb.
20. Oes gennych chi unrhyw farn ar y rhyngweithiadau rhwng unrhyw SAM a sbardunir gan faint a'r ARP a CCM? Rhowch eich rhesymau ac unrhyw dystiolaeth dros eich ymateb.

Crynodeb o Ymatebion Rhanddeiliaid

Ymatebodd 32 o randdeiliaid i Gwestiynau 6 a 7, lle cytunodd ymatebwyr **26/32 (81%)** â'r dull arfaethedig o gyfrifo cyfanswm nifer y lwfansau mewn cylchrediad (TNAC), gan nodi y gellid alinio'r cyfrifiad TNAC â dull yr UE gyda Chronfa Sefydlogi'r Farchnad (MSR). Ystyriwyd bod y fethodoleg arfaethedig i gyfrifo'r TNAC hefyd yn dryloyw. Roedd **6/32 (19%)** o ymatebwyr yn anghytuno, a nododd fod angen ystyried ymhellach nifer y lwfansau a ddelir gan gyfranogwyr nad ydynt yn cydymffurfio i gyfrifo TNAC dibynadwy. Prin oedd yr ymatebion ar gyfrifiadau TNAC amgen, am fod awgrymiadau'n cynnwys y dylid tynnu lwfansau a gedwir yn y gronfa o gyfanswm niferoedd y lwfansau fel bod y TNAC yn cynrychioli gwir gyflenwad y farchnad, a gellid cyfrifo'r TNAC yn amlach, e.e. bob chwarter, fel y gallai ymateb i siociau yn gyflymach.

Ymatebodd 32 o randdeiliaid i Gwestiwn 8, lle rhoddodd ymatebwyr farn ar yr hyn sy'n gyfystyr â gwarged priodol. Awgrymodd nifer o'r ymatebwyr gymhwyso methodoleg yr UE ar gyfer eu MSR i gyfrifo'r lefel gorau posibl o warged. Awgrymodd llawer o ymatebwyr hefyd fod yn rhaid i'r gwarged gyfrif am ofynion rhagfantoli y rheini nad ydynt yn gyfranogwyr.

Ymatebodd 23 o randdeiliaid i Gwestiwn 9 ar y trothwyon sbarduno terfyn uchaf ac isaf, a **15/23 (65%)** o ymatebwyr wedi rhoi barn. Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at fethodoleg yr UE i gyfrifo trothwyon ar gyfer yr MSR y gellid ei ddefnyddio yn UK ETS. Ar ben hynny, nododd nifer o ymatebwyr fod angen i drothwyon ystyried gofynion rhagfantoli yn y dyfodol, a'r potensial i ehangu cwmplas UK ETS ymhellach.

Ymatebodd 29 o randdeiliaid i Gwestiwn 10, ac ymatebodd 21 i Gwestiwn 11. Cefnogodd nifer o ymatebwyr raddfa llithro o addasu cyflenwad gan fod seilio

adweithedd ar y graddau yr aethpwyd heibio i'r trothwyon yn sicrhau nad yw'r SAM a sbardunir gan faint yn sioc i'r farchnad gydag ymateb anghymesur. Nododd ymatebwyr lluosog y dylai cyfrifiadau addasu fod yn rhagweladwy, a thrwy hynny leihau anwadalrwydd y farchnad. Yn olaf, awgrymodd ymatebwyr y gellid defnyddio methodoleg EU ETS ar gyfer yr MSR, gyda chap o 24%. Nid oedd unrhyw drothwyon sbarduno eraill wedi'u nodi gan ymatebwyr.

Ymatebodd 29 o randdeiliaid i Gwestiwn 12 ar fathau o drothwy. Dywedodd **24/29 (83%)** o ymatebwyr fod trothwyon cymharol yn fwy priodol na rhai statig, gan fod nifer o ymatebwyr yn nodi bod y cap yn ddynamig a bydd yn lleihau dros amser; felly, mae angen addasu unrhyw drothwyon yn unol â hynny. Dywedodd ymatebwyr hefyd y gall trothwyon cymharol ymateb yn briodol os bydd UK ETS yn newid trwy ehangu cwmpas neu gysylltu. Roedd yn well gan **5/29 (17%)** o ymatebwyr drothwy statig, gan awgrymu ei fod yn darparu rhagweladwyedd i'r farchnad, a gall weithredu'n debyg i drothwyon cymharol trwy weithredu trothwy blynyddol sefydlog gyda gostyngiad blynyddol awtomatig ochr yn ochr â'r cap.

Ymatebodd 16 o randdeiliaid i Gwestiwn 13, lle roedd **12/16 (75%)** o ymatebwyr yn ffafrio trothwyon cymharol i fod yn gyfran o gap blynyddol UK ETS, gan nodi bod trothwyon sy'n gysylltiedig â'r cap blynyddol yn ei gwneud yn rhagweladwy i gyfranogwyr, ac yn lleihau risg caethder y farchnad. Roedd **3/16 (19%)** o ymatebwyr yn ffafrio trothwyon i fod yn gymharol â'r nifer arwerthiannau blynyddol.

Ymatebodd 23 o randdeiliaid i Gwestiwn 14, ac ymatebodd 22 i Gwestiwn 15. Nid oedd llawer o awgrymiadau ar y lefel briodol o addasiad nifer arwerthiannau, ond awgrymodd nifer o ymatebwyr alinio â methodoleg yr UE ar gyfer ei MSR. Dywedodd ymatebwyr lluosog na ddylai unrhyw addasiad fod yn ddigon aflonyddgar i gyflwyno anwadalrwydd i'r farchnad, a bod rhaid i addasiadau ystyried bychander marchnad UK ETS a pheidio ag effeithio ar hylifedd. Nid oedd unrhyw ymatebion i ddadansoddi a ddylai'r addasiad fod yn ganran o nifer arwerthiannau blynyddol.

Ymatebodd 27 o ymatebwyr i Gwestiwn 16 ar amseriad cyhoeddi TNAC. Roedd **25/27 (93%)** o ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig i gyhoeddi TNAC ar ôl cydymffurfio yn y Gwanwyn, gyda dim ond **2/27 (7%)** yn anghytuno. Cytunodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr y dylid cyfrifo TNAC cyn gynted â phosibl pan fydd y data allyriadau ar gyfer y flwyddyn flaenorol yn cael ei gadarnhau.

Ymatebodd 23 o randdeiliaid i Gwestiwn 17 ar amseroedd addasu cyflenwad arwerthiant. Awgrymodd nifer o'r ymatebwyr y dylid gwneud unrhyw addasiadau i arwerthiannau cyn gynted â phosibl ar ôl cyhoeddi TNAC. Nododd ymatebwyr lluosog y dylai unrhyw addasiadau cyflenwad arwerthiant ddechrau o arwerthiant mis Medi, a thrwy hynny alinio ag EU ETS. Nododd rhai ymatebwyr nad oes ganddynt ddigon o wybodaeth i roi barn. Ymatebodd 22 o randdeiliaid i Gwestiwn 18 ar ddosbarthu cyflenwad yn dilyn actifadu SAM a sbardunir gan faint. Dywedodd **21/22 (95%)** o ymatebwyr y dylai addasiadau cyflenwad arwerthiant gael eu dosbarthu'n

gyfartal dros gyfnod o 12 mis, gan alinio â methodoleg yr UE, gan ddarparu rhagweladwydd i gyfranogwyr a lleihau anwadlwydd.

Ymatebodd 18 o randdeiliaid i Gwestiwn 19 ynghylch ym mha flwyddyn y cynllun y dylid cyflwyno SAM a sbardunir gan faint. Cafwyd amrywiaeth o ymatebion, gyda **6/18 (33%)** o ymatebwyr yn awgrymu 2025, **4/18 (22%)** yn awgrymu 2026, **1/18 (6%)** yn awgrymu 2027, **1/18 (6%)** yn awgrymu 2028, a **6/18 (33%)** o ymatebwyr yn dweud 'cyn gynted â phosibl'. Nododd y grŵp ymatebwyr a bleidleisiodd dros 2025 y dylid gweithredu SAM a sbardunir gan faint i fynd i'r afael â'r gwarged gormodol o lwfansau yn y farchnad. Dywedodd ymatebwyr a awgrymodd 'cyn gynted â phosibl' fod ei angen i helpu i liniaru newidiadau sydyn, dramatig mewn prisiau carbon, a gallai unrhyw oedi waethygu'r mater.

Ymatebodd 29 o randdeiliaid i Gwestiwn 20 ar y rhyngweithiadau rhwng SAM a sbardunir gan faint gyda'r CCM a'r ARP. Roedd rhaniad cyfartal rhwng ymatebwyr, gan fod rhai yn nodi nad oes angen y CCM a'r ARP mwyach, tra bod eraill yn dweud bod y ddau fecanwaith yn ategu SAM a sbardunir gan faint.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael o: <https://www.gov.uk/government/consultations/uk-emissions-trading-scheme-future-markets-policy>

Os oes angen fersiwn o'r ddogfen hon arnoch mewn fformat mwy hygyrch, anfonwch e-bost at alt.formats@energysecurity.gov.uk. Dywedwch wrthym ba fformat sydd ei angen arnoch. Bydd yn ein helpu os dywedwch pa dechnoleg gynorthwyol rydych yn ei ddefnyddio.